Hawdd ei Ddeall

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Gofal Cymdeithasol Cymru

# Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Codau Ymarfer Proffesiynol**'.

**Medi 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 44**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** gofalcymdeithasol.cymru/ymgynghoriadau/newidiadau-codau-ymarfer-proffesiynol

**Ebost:** codau@gofalcymdeithasol.cymru

**Ffôn:** 0300 303 3444

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Cyflwyniad....................4**

Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol....................5

**Am yr ymgynghoriad yma....................6**

**Sut i anfon eich sylwadau i ni....................8**

**Newidiadau i'r Cod Ymarfer Proffesiynol i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol.................... 11**

**Beth rydyn ni eisiau ei newid ym mhob adran.................... 12**

**Amdanoch chi.................... 34**

**Gwybodaeth am gydraddoldeb.................... 36**

**Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth.................... 41**

**Geiriau anodd.................... 44**

# Cyflwyniad

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Ni ydy **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Rydyn ni yn gweithio i wneud yn siŵr bod gan bobl ofal cymdeithasol a chefnogaeth o ansawdd da.



Mae **gofal cymdeithasol** yn meddwl gwasanaethau sy'n helpu pobl gyda'u bywyd bob dydd. Er enghraifft:

- Gofal personol
- Cartrefi gofal
- Cartrefi nyrsio
- Byw â chymorth
- Canolfannau Dydd



Rydych chi'n gallu gwylio ein fideo sy'n esbonio mwy am ofal cymdeithasol yma: https://www.youtube.com/watch?v=KQ5y0VxOtgo




Rydyn ni yn diweddaru'r **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol**.

## Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol



Mae'r **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol** yn rhestr o ddatganiadau.



Mae'r datganiadau yn disgrifio beth mae'n rhaid i gyflogwyr gofal cymdeithasol ei wneud i wneud yn siŵr bod eu gweithwyr:

- yn ddiogel
- gyda'r sgiliau cywir
- ac yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen i ddarparu gofal cymdeithasol da.



Fe ddylai pawb sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol ddilyn y Cod yma.




Rydych chi'n gallu darllen y **Cod Ymarfer Proffesiynol cyfredol ar gyfer Cyflogwyr Cymdeithasol** yma: [gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau](gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau)

# Am yr ymgynghoriad yma



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau rydyn ni eisiau  eu gwneud.



Rydyn ni eisiau eu gwneud yn gliriach ac yn haws i'w dilyn.


Rydyn ni eisiau i'r newidiadau helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddeall yn well:



- Sut i weithredu yn y ffordd mae disgwyl iddyn nhw wneud. Yn bersonol ac ar-lein.



- Pa mor bwysig ydy cael perthynas dda gyda phobl, teuluoedd a gofalwyr.
- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar gryfderau person, a beth maen nhw'n **gallu** ei wneud.



- Pwysigrwydd cefnogi pobl i wneud beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Rydyn ni eisiau clywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol. Yn arbennig:

- Pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

- Cyflogwyr.

- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

- Teuluoedd a gofalwyr di-dâl - pobl sy'n darparu llawer o ofal i rywun oherwydd oedran, salwch, anabledd neu gyflwr iechyd.

- Gwirfoddolwyr.



Rydyn ni wedi darganfod nad ydy'r fersiynau Cymraeg o'r Codau yn glir iawn ac yn hawdd eu deall.




Rydyn ni hefyd eisiau clywed gan siaradwyr Cymraeg. Rydyn ni eisiau gwybod beth rydyn ni'n gallu ei wneud i wneud y fersiynau Cymraeg yn glir ac yn hawdd i'w dilyn.

# Sut i anfon eich sylwadau i ni




Darllenwch y ddogfen yma ac atebwch y cwestiynau.



Rydych chi'n gallu llenwi'r ddogfen yma ar-lein a'i hanfon yn ôl at: codau@gofalcymdeithasol.cymru.



Neu rydych chi'n gallu ei argraffu a'i bostio i:

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW




Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os ydych chi eisiau amlen gyda chyfeiriad a stamp yn: codau@gofalcymdeithasol.cymru

Rydych chi hefyd yn gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl mewn ffordd wahanol os ydy hynny'n haws i chi. Er enghraifft, rydych chi'n gallu:



- ysgrifennu,



- neu anfon recordiad fideo neu recordiad sain i ni. Fe fydd angen i chi atodi eich fideo neu recordio i ebost.



Os ydych chi angen yr ymgynghoriad yma mewn fformat gwahanol, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, anfonwch ebost i ni yn: codau@gofalcymdeithasol.cymru.




Anfonwch eich sylwadau i ni erbyn hanner dydd, **17 Rhagfyr 2024**.



Rydych chi hefyd yn gallu darllen ac ateb cwestiynau am y **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol** yma: gofalcymdeithasol.cymru/ymgynghoriadau/newidiadau-codau-ymarfer-proffesiynol



Ar ôl yr ymgynghoriad, fe fyddwn ni yn diweddaru'r Codau.




Fe fyddwn ni hefyd yn diweddaru'r canllawiau sy'n helpu pobl i ddilyn y Codau.

# Newidiadau i'r Cod Ymarfer Proffesiynol i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol



Mae 5 adran yn y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol.




Rydych chi'n gallu darllen y **Cod Ymarfer Proffesiynol cyfredol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol** yma: gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau



Rydyn ni wedi egluro'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud yn rhan nesaf y ddogfen yma. Mae cwestiynau i'w hateb ar ôl pob adran.


# Beth rydyn ni eisiau ei newid ym mhob adran

## Adran 1: Gwneud yn siŵr bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn addas ar gyfer eu swydd. Gwneud yn siŵr eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid '**bydd cyflogwyr**' yn '**rhaid i gyflogwyr**'. Rydyn ni eisiau ei gwneud yn glir bod cyflogwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Cod yn cael ei ddilyn.



- Rydyn ni yn rhannu 1 o'r datganiadau yn 2 ran i'w gwneud yn gliriach.

## Adran 1 – geiriad newydd

**Gwneud yn siŵr bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn addas ar gyfer eu swydd. Gwneud yn siŵr eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau**

**Datganiadau**



1.1 Rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr eu bod yn cyflogi'r bobl gywir yn unig. Mae'n rhaid iddyn nhw gael y wybodaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r cymwysterau cywir. Rhaid i gyflogwyr ddefnyddio polisïau a phrosesau cyflogi da.



1.2 Cyn cyflogi rhywun mae'n rhaid i gyflogwyr edrych ar:

- cofnodion troseddol
- cofrestrau
- geirda gan gyn-gyflogwyr
- unrhyw fylchau mewn cyflogaeth
- os ydy gweithwyr yn cael gweithio yng Nghymru yn ôl y gyfraith.



1.3 Rhaid i gyflogwyr gael geirda i weld bod person yn addas i weithio ym maes gofal cymdeithasol. Rhaid i gyflogwyr hefyd ddarparu geirda pan fo angen.



1.4 Mae’n rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr bod gweithwyr yn deall:

- eu rolau
- a chyfrifoldebau.



1.5 Rhaid i gyflogwyr roi gwybodaeth glir i weithwyr er mwyn iddyn nhw allu dilyn y gyfraith, polisïau a phrosesau mae angen iddyn nhw eu gwneud.



1.6 Rhaid i gyflogwyr roi gwybodaeth glir i weithwyr am reoli a chymorth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gymorth ar gyfer eu hiechyd, diogelwch a llesiant yn y gwaith.




1.7 Rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr bod contractau gweithwyr yn gyfreithlon. Ac yn ddigon da i gadw gweithwyr. Fe ddylai cyflogwyr edrych ar gontractau i wneud yn siŵr o’r pethau yma.

## Cwestiynau am adran 1

**1a. Ydy adran 1 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**1b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**1c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 2. Cael polisïau a phrosesau sydd yn helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol i Weithwyr

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid '**bydd cyflogwyr**' yn '**rhaid i gyflogwyr**'. Rydyn ni eisiau ei gwneud yn glir bod cyflogwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Cod yn cael ei ddilyn.



- Rydyn ni wedi ychwanegu 'gweithwyr asiantaeth'. Mae gweithwyr asiantaeth yn gweithio i sefydliad sy'n dod o hyd i swyddi dros dro iddyn nhw.




- Rydyn ni wedi ychwanegu cyfrifoldebau o ran diogelu gwybodaeth bersonol pobl.

## Adran 2 - Geiriad newydd

## Cael polisïau a phrosesau sy'n helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol i Weithwyr

### Datganiadau



2.1 Rhaid i gyflogwyr gefnogi gweithwyr i ddilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr.



2.2 Rhaid i gyflogwyr reoli gweithwyr a darparu **goruchwyliaeth** i'w cefnogi a'u helpu i wneud eu gwaith yn dda. Fe ddylai cyflogwyr helpu staff i wella a gwneud yn siŵr eu bod yn **addas i ymarfer**.

**Goruchwylio** ydy pan mae rheolwr yn eistedd i lawr gyda gweithiwr i siarad ac edrych ar eu gwaith.




Mae **addas i ymarfer** neu **addasrwydd i ymarfer** yn meddwl gallu gweithiwr i wneud y gwaith mae disgwyl iddyn nhw ei wneud.



2.3 Rhaid i gyflogwyr gefnogi gweithwyr o broffesiynau eraill, fel nyrsio, i ddilyn eu codau proffesiynol. Rhaid i gyflogwyr adrodd am weithwyr nad ydyn nhw efallai'n gallu gwneud eu gwaith yn iawn.



2.4 Rhaid i gyflogwyr gael polisïau i ddelio â niwed neu gamdriniaeth. Mae'n rhaid i bolisïau helpu gweithwyr i ddeall a gwybod:

- arwyddion o niwed neu gamdriniaeth
- beth ddylen nhw ei wneud os bydd hynny'n digwydd.




2.5 Rhaid i gyflogwyr gael polisïau am gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn breifat. Rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr bod eu gweithwyr a'u gwirfoddolwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran hyn.



2.6 Rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr bod gan bobl a gofalwyr ffordd o roi adborth, a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau.



2.7 Rhaid i gyflogwyr fod â pholisïau a ffyrdd clir i weithwyr godi unrhyw bryderon. Mae'n rhaid i gyflogwyr gymryd camau a delio ag unrhyw bryderon yn briodol.



2.8 Rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr bod gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn teimlo eu bod yn gallu bod yn onest os ydy pethau yn mynd o chwith. Rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr bod ffyrdd clir o roi gwybod am ddigwyddiadau, a bod gweithwyr yn gallu dysgu o gamgymeriadau. Fe ddylai cyflogwyr geisio datrys unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl.

## Cwestiynau am adran 2

**2a. Ydy adran 2 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**2b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**2c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 3. Cefnogi gweithwyr i barhau i ddysgu a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau

## Prif newidiadau:



- Rydyn ni wedi newid '**bydd cyflogwyr**' yn '**rhaid i gyflogwyr**'. Rydyn ni eisiau ei gwneud yn glir bod cyflogwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Cod yn cael ei ddilyn.




- Rydyn ni wedi ychwanegu y dylid defnyddio'r Codau Ymarfer Proffesiynol mewn **goruchwyliaeth**.

## Adran 3 - Geiriad newydd

### Cefnogi gweithwyr i barhau i ddysgu a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau



### Datganiadau

3.1 Rhaid i gyflogwyr ddarparu hyfforddiant a dysgu parhaus i weithwyr.



3.2 Rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr eu bod yn helpu gweithwyr i ddysgu am eu swyddi. Mae hyn yn gallu meddwl rhoi amser i weithwyr ddysgu neu dalu am eu hyfforddiant. Os oes angen i gyflogwyr brofi gweithwyr am beth maen nhw'n ei ddysgu, rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr bod y profion yn gweithio'n dda.



3.3 Rhaid i gyflogwyr gefnogi gweithwyr i fynd ar **gofrestrau proffesiynol**, ac aros arnyn nhw.

Mae **cofrestrau proffesiynol** yn cael eu cadw gan sefydliadau fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhaid i weithwyr gael y sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau penodol i fod arnyn nhw, ac aros ar gofrestrau.



3.4 Rhaid i gyflogwyr gefnogi gweithwyr sydd yn teimlo nad ydyn nhw yn gallu gwneud eu gwaith.




3.5 Mae'n rhaid i gyflogwyr ddarparu **goruchwyliaeth** i weithwyr. Fe ddylai cyflogwyr gefnogi gweithwyr i feddwl am eu gwaith a sut i wella. Rhaid iddyn nhw siarad am y Cod Ymarfer Proffesiynol a'r canllaw yn ystod **goruchwyliaeth**.

# Cwestiynau am adran 3

**3a. Ydy adran 3 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**3b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**3c. Oes gennych chi  unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 4. Cael polisïau a phrosesau i amddiffyn pobl rhag sefyllfaoedd sydd ddim yn ddiogel. A chymryd camau i ddelio ag unrhyw sefyllfaoedd sydd ddim yn ddiogel sy'n digwydd

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid '**bydd cyflogwyr**' yn '**rhaid i gyflogwyr**'. Rydyn ni eisiau am ei gwneud yn glir bod cyflogwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Cod yn cael ei ddilyn.



- Rydyn ni wedi ychwanegu y dylid dilyn polisïau ar ddechrau pob datganiad. Ac y dylid cymryd camau os na fyddan nhw yn cael eu dilyn ar y diwedd.




- Rydyn ni wedi ychwanegu'r term **addasrwydd i ymarfer** i un o'r datganiadau.



- Rydyn ni wedi ychwanegu pobl a theuluoedd at un o'r datganiadau.



- Rydyn ni wedi ychwanegu datganiad newydd am **gydraddoldeb** ac **amrywiaeth**. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn deall pwysigrwydd hyrwyddo **cydraddoldeb**, **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.



Mae **Cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



Mae **Amrywiaeth** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath, Er enghraifft rydyn ni'n dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau, gyda galluoedd gwahanol ac yn credu pethau gwahanol.



Mae **Cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan, a bod gan bawb gyfle teg.

## Adran 4 - Geiriad newydd

**Cael polisïau a phrosesau i amddiffyn pobl rhag sefyllfaoedd sydd ddim yn ddiogel. A chymryd camau i ddelio ag unrhyw sefyllfaoedd sydd ddim yn ddiogel sy'n digwydd**

### Datganiadau



4.1 Rhaid i gyflogwyr gael a dilyn polisïau a phrosesau ynghylch llesiant. Mae hyn yn meddwl llesiant gweithwyr, pobl a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Rhaid i gyflogwyr weithredu os nad ydy'r polisïau yn cael eu dilyn.



4.2 Rhaid i gyflogwyr gael a dilyn polisïau a phrosesau ynghylch **cydraddoldeb**, **amrywiaeth** a **chynhwysiant**. Rhaid i gyflogwyr weithredu os nad ydy'r polisïau yn cael eu dilyn.



4.3 Rhaid i gyflogwyr gael a dilyn polisïau a phrosesau ynghylch bwlio ac **aflonyddu**. Rhaid i gyflogwyr weithredu os nad ydy'r polisïau yn cael eu dilyn.

**Aflonyddu** ydy unrhyw ymddygiad sy'n peri gofid i rywun neu'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ofnus neu'n teimlo cywilydd.



4.4 Rhaid i gyflogwyr gael a dilyn polisïau a phrosesau ar gyfer adrodd am ymddygiad niweidiol. Rhaid i gyflogwyr ddelio ag unrhyw faterion yn gyflym ac yn agored.



4.5 Rhaid i gyflogwyr ei gwneud yn glir nad ydy trais, bygythiadau neu gamdriniaeth yn dderbyniol. Mae hyn yn cynnwys cael polisïau a phrosesau clir ar gyfer lleihau'r risg y bydd y pethau yma yn digwydd. A delio ag ef yn gyflym os ydy hynny'n digwydd.



4.6 Rhaid i gyflogwyr gael a dilyn polisïau a phrosesau i gefnogi gweithwyr sy'n profi:

- **trawma**

> **Trawma** ydy effaith sefyllfa anodd ar berson. Er enghraifft, efallai eu bod yn teimlo yn drist iawn neu wedi eu hanafu am amser hir iawn.

- **aflonyddu**

- neu drais yn y gwaith




4.7 Rhaid i gyflogwyr gael a dilyn polisïau a phrosesau am iechyd a diogelwch. Rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod gweithwyr yn gwybod am y polisïau yma ac yn eu dilyn. Rhaid i gyflogwyr weithredu os nad ydy'r polisïau yn cael eu dilyn.



4.8 Rhaid i gyflogwyr gael a dilyn polisïau a phrosesau i ymchwilio i broblemau. Gan gynnwys pryderon am weithwyr hyd yn oed os ydyn nhw yn gadael. Rhaid i gyflogwyr weithredu os nad ydy polisïau yn cael eu dilyn.



4.9 Rhaid i gyflogwyr gefnogi gweithwyr sydd â phryderon **addasrwydd i ymarfer**. Mae'n rhaid iddyn nhw roi arweiniad clir i weithwyr, gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn derbyn gofal yn ystod y cyfnod yma.

# Cwestiynau am adran 4

**4a. Ydy adran 4 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**4b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**4c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 5. Hyrwyddo'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar eu hymchwiliadau

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid '**bydd cyflogwyr**' yn '**rhaid i gyflogwyr**'. Rydyn ni eisiau ei gwneud yn glir bod cyflogwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Cod yn cael ei ddilyn.



- Rydym wedi newid rhai geiriau i wneud y datganiadau yn gliriach.


## Adran 5 - Geiriad newydd

### Hyrwyddo'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar eu hymchwiliadau

### Datganiadau



5.1 Rhaid i gyflogwyr ddweud wrth eu gweithwyr am y Cod Ymarfer Proffesiynol i Gyflogwyr.




5.2 Rhaid i gyflogwyr wneud yn siŵr bod gweithwyr yn gwybod ac yn deall y **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr**. A'u cyfrifoldeb nhw i'w dilyn.



5.3 Rhaid i gyflogwyr gefnogi rheolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau ychwanegol.



5.4 Rhaid i gyflogwyr ddweud wrth bobl a gofalwyr am y codau. Rhaid iddyn nhw ddweud wrthyn nhw sut i adrodd am unrhyw broblemau. Ac egluro sut i gysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru os oes angen.



5.5 Rhaid i gyflogwyr ddefnyddio'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer gweithwyr wrth wneud penderfyniadau am **addasrwydd** gweithiwr **i ymarfer**.



5.6 Mae'n rhaid i gyflogwyr ddweud wrth Gofal Cymdeithasol Cymru am weithwyr nad ydyn nhw efallai'n **addas i ymarfer**.



5.7 Rhaid i gyflogwyr weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar eu hymchwiliadau i **addasrwydd** gweithiwr **i ymarfer**. Mae hyn yn cynnwys darparu dogfennau a mynd i wrandawiadau, lle mae'r mater yn cael ei archwilio a'i farnu, os oes angen.



5.8 Rhaid i gyflogwyr ddelio â'r penderfyniadau mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud am **addasrwydd** gweithiwr **i ymarfer**.

# Cwestiynau am adran 5

**5a. Ydy adran 5 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**5b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**5c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Amdanoch chi



**1. Ydych chi yn ateb yr ymgynghoriad yma:**



☐ fel unigolyn
(Ewch i gwestiwn 2)

☐ ar ran sefydliad
(Ewch i gwestiwn 3)



**2. Os ydych chi'n ateb fel unigolyn, rhowch wybod i ni os ydych chi'n weithiwr, yn wirfoddolwr neu'n berson sy'n defnyddio gofal. Dywedwch wrthyn ni pa fath o rôl sydd gennych.**

Er enghraifft, person sy'n defnyddio gofal a chymorth, aelod o'r teulu, gwirfoddolwr, rheolwr cartref gofal, darparwr gofal plant.


**Peidiwch â dweud eich enw wrthyn ni.**



3. Os ydych chi yn ateb ar ran sefydliad, rhowch wybod i ni:



**Enw eich sefydliad:**




**Ydy hi'n iawn cyhoeddi enw'ch sefydliad yn ein hadroddiad?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐



**Math o sefydliad. Er enghraifft, awdurdod lleol, darparwr gofal plant, darparwr addysg.**

# Gwybodaeth am gydraddoldeb



Does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau yma os nad ydych chi eisiau. Peidiwch â chwblhau'r rhan yma o'r ffurflen os ydych chi yn sefydliad.



Rydyn ni yn casglu'r wybodaeth yma i'n helpu i ddeall pwy sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.



Fe fydd hyn yn ein helpu i weld a oes angen i ni wneud mwy o waith i gael barn grwpiau gwahanol o bobl, o wahanol gefndiroedd.




Efallai y bydd y wybodaeth sydd yn cael ei rhoi yn cael ei rhannu fel rhan o adroddiad, ond fe fydd y wybodaeth yn **ddienw** - fydd neb yn gwybod pwy ddywedodd beth.



**1. Dywedwch wrthyn ni am eich cefndir ethnig.**

Er enghraifft, Prydeinig, Asiaidd, Tsieineaidd, Du, Gwyn.

**1. Ydych chi yn:**



☐ Benyw

☐ Gwryw



☐ **Trawsryweddol** - person nad yw ei rywedd yr un fath â'r rhyw oedd ganddyn nhw iddo pan gawson nhw eu geni.



☐ **Anneuaidd** - person nad ydy ei rywedd yn cyd-fynd â syniadau arferol o beth sy'n wrywaidd a beth sy'n fenywaidd. Mae person anneuaidd yn gallu teimlo neu wybod nad ydyn nhw'n ddyn nac yn fenyw.

☐ **Rhyweddhylifol** – person sydd ddim yn nodi bod ganddo 1 rhyw sefydlog.



☐ Mae'n well gen i beidio ag ateb

Mae'n well gen i ddefnyddio fy ngeiriau fy hun i ddisgrifio fy hun. Dywedwch wrthyn ni isod:



**2. Ydych chi'n ystyried eich bod yn anabl?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ansicr
- [ ] Mae'n well gen i beidio ag ateb



**3. Ydych chi yn:**

- [ ] Deurywiol
- [ ] Heterorywiol neu'n syth
- [ ] Cyfunrywiol neu Hoyw
- [ ] Menyw lesbiaidd neu hoyw
- [ ] Ansicr
- [ ] Mae'n well gen i beidio ag ateb

## 1. Ydych chi'n siarad Cymraeg?

- Ydw, yn rhugl
- Y dw, rydw i'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg
- Ydw, rydw i'n gallu siarad Cymraeg sylfaenol
- Ydw, rydw i'n gallu siarad Cymraeg da, ond ddim yn rhugl
- Nac ydw
- Mae'n well gen i beidio ag ateb

# Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni yn defnyddio'ch gwybodaeth drwy ddilyn cyfraith o'r enw **Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (GDPR)**.



Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion.




Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi adroddiad sy'n dangos y mathau o bethau mae pobl wedi ei ddweud.




Fe fydd eich atebion yn **ddienw** – fe fydd hyn yn rhoi gwybod pwy sydd wedi dweud beth. Oni bai eich bod yn sefydliad ac wedi dweud wrthyn ni ein bod yn gallu dweud wrth bobl beth rydych chi wedi ei ddweud.




Os ydy'ch atebion yn ein hadroddiad, mae'r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.




Ond dim ond am 5 mlynedd mae gwybodaeth sydd ddim yn cael ei chyhoeddi yn cael ei gadw.




Mae'r gyfraith yn rhoi'r hawl i chi:

- Gwybod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a sut rydych chi'n gallu ei gweld.
- Gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn y wybodaeth amdanoch chi.
- Gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn i ni ddileu'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud y wybodaeth amdanoch chi i rywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno wrth **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, cysylltwch â ni yn:



**Swyddog Diogelu Data**

Gofal Cymdeithasol Cymru

Southgate House

Stryd Wood

Caerdydd

CF10 1EW



**Ebost:** FOI@socialcare.wales

Rydych chi  hefyd yn gallu cysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru**:

2il Llawr Churchill House

Churchill Way

Caerdydd

CF10 2HH

**Ffôn:** **0330 414 6421** neu **02920 678 400**

**Ebost:** wales@ico.org.uk

**Website**: https://ico.org.uk

# Geiriau anodd

### Addas i ymarfer neu addasrwydd i ymarfer

Mae addas i ymarfer neu addasrwydd i ymarfer yn meddwl gallu gweithiwr i wneud y gwaith mae disgwyl iddyn nhw ei wneud.

### Aflonyddu

Aflonyddu ydy unrhyw ymddygiad sy'n peri gofid i rywun neu'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ofnus neu gywilyddus.

### Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, rydyn yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau, mae gennym ni wahanol alluoedd ac yn credu pethau gwahanol.

### Cofrestrau proffesiynol

Mae cofrestrau proffesiynol yn cael eu cadw gan sefydliadau fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhaid i weithwyr gael y sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau penodol i fod arnyn nhw, ac aros ar gofrestrau.

### Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

### Cynhwysiant

Mae cynhwysiant yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan, ac mae gan bawb gyfle teg.

### Goruchwylio

Goruchwylio ydy pan fydd rheolwr yn eistedd i lawr gyda gweithiwr i siarad ac edrych ar ei waith.

### Trawma

Trawma ydy effaith sefyllfa anodd ar unigolyn. Er enghraifft, efallai y byddan nhw yn teimlo'n drist neu'n brifo am amser hir.